

Cynllun Gweithredu – Safonau Iaith Gymraeg

Theatr Genedlaethol Cymru yw'r cwmni theatr cenedlaethol iaith Gymraeg. Mae'r iaith Gymraeg yn ganolog i'r holl rydym yn ei wneud fel cwmni, a hybu a datblygu'r celfyddydau trwy gyfrwng y Gymraeg yw'n prif hamcan fel elusen.

Mae'r cwmni yn gweithredu yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae holl gyflogeion y cwmni yn rhugl yn y Gymraeg.

Mae safonau iaith yn rhoi fframwaith cyfreithiol yn ei le sy'n sicrhau hawliau i bobl gael mynediad i wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyflwynwyd y safonau fel rhan o Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 a fu'n gyfrifol am greu swydd Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, hefyd. Mae Theatr Genedlaethol Cymru (ThGC) yn un o'r sefydliadau y mae disgwyl iddynt gydymffurfio â'r safonau iaith. Theatr Genedlaethol Cymru yw'r unig sefydliad sydd wedi derbyn safonau sydd yn gweithredu'n gyfan gwbl yn fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ffaith fod y cwmni yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu nad oedd rhaid i'r cwmni i wneud unrhyw newidiadau er mwyn gallu cydymffurfio â'r safonau iaith.

Mae pum categori o safonau:

1. Darparu Gwasanaethau – mae'r rhain yn cyfeirio at sut rydym yn cyfathrebu gyda chwsmeriaid ac yn darparu ein gwasanaethau
2. Creu Polisiâu – mae'r safonau hyn yn sicrhau ein bod yn ystyried yr iaith Gymraeg pan fyddwn yn datblygu unrhyw bolisiau
3. Gweithredol – mae'r safonau hyn yn cyfeirio at sut rydym yn gweithredu fel sefydliad a'r hawliau sydd gan ein staff i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y gwaith
4. Cadw Cofnodion – mae'r safonau hyn yn sicrhau ein bod yn monitro ac yn adrodd am ein cynnydd yn nhermau cydymffurfio a darparu ein gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Atodol – mae'r safonau hyn yn amlinellu sut y byddwn yn adrodd ar ein cynnydd i'r Comisiynydd yn flynyddol ac yn sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae Theatr Genedlaethol Cymru yn gweithredu'r safonau iaith Gymraeg. Cynhyrchwyd y ddogfen hon er mwyn cydymffurfio ag agweddau ar safon 151, 153, 157, 159, 163, 165.

1. DARPARU GWASANAETHAU

Ysgrifennwch atom

- Os ydych yn ysgrifennu llythyr neu e-bost atom, gallwch wneud hynny yn Gymraeg a byddwn yn eich ateb yn Gymraeg.
- Os ydym ni'n ysgrifennu atoch chi am y tro cyntaf neu os nad ydym yn gwybod ym mha iaith yr hoffech i ni ohebu â chi, byddwn yn ysgrifennu atoch yn ddwyieithog.
- Byddwn yn gofyn i chi ym mha iaith yr hoffech dderbyn gohebiaeth oddi wrthym yn y dyfodol ac yn cadw cofnod o hyn.

- Pan fyddwn yn ysgrifennu at nifer o bobl ar yr un pryd, fe wnawn hynny yn Gymraeg a Saesneg, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Bydd y Gymraeg yn ymddangos gyntaf ar unrhyw lythyrau neu e-bost i'r cyhoedd.
- Rydym yn nodi'n glir yn ein dogfennau ein bod yn croesawu gohebiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Cysylltu â ni dros y ffôn

- Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
- Bydd ein staff yn cyfarch yn Gymraeg pan fyddant yn ateb y ffôn.
- Pan fyddwn ni'n eich ffonio chi byddwn yn gofyn am eich dewis iaith a byddwn yn gwneud nodyn o hyn.
- Mae pob aelod o staff cyflogedig yn gallu siarad Cymraeg ac felly mae modd cynnal sgwrs gydag unrhyw aelod o staff trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cyfarfodydd a digwyddiadau

- Os byddwn yn gwahodd aelod o'r cyhoedd i gyfarfod, byddwn yn gofyn os hoffent gynnal y sgwrs yn Gymraeg a byddwn yn trefnu cyfieithydd os mai dyna eu dymuniad.
- Os byddwn yn gwahodd grŵp o bobl i gyfarfod, byddwn yn gofyn i'r rheini sy'n mynychu os hoffent gyfrannu yn Gymraeg a byddwn yn trefnu cyfieithydd os yw deg y cant neu fwy yn dweud wrthym yr hoffent wneud hynny.
- Pan fyddwn yn trefnu neu'n ariannu digwyddiad i'r cyhoedd, byddwn yn ei hysbysebu ac yn anfon gwahoddiadau allan yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf neu'n fwy amlwg.
- Os byddwch yn mynychu digwyddiad cyhoeddus yr ydym wedi'i drefnu, mae croeso i chi gyfrannu yn Gymraeg a byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar eich cyfer.
- Bydd deunyddiau a gwybodaeth ynghylch unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg neu yn ddwyieithog cyn ac yn ystod y cyfarfod.

Cyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig

- Bydd yr holl ddogfennau, deunyddiau hyrwyddo a hysbysebion yr ydym yn eu cynhyrchu ar gael yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Byddwn yn sicrhau bod y wybodaeth a'r deunyddiau rydym yn eu harddangos yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.
- Bydd unrhyw arwyddion a godwn yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.
- Bydd dogfennau cyhoeddus a gynhyrchwn yn Gymraeg yn unig neu yn ddwyieithog.
- Bydd unrhyw ffurflenni sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn Gymraeg yn unig, neu'n ddwyieithog os yn briodol.

Digidol ac ar-lein

- Mae ein gwefan yn ddwyieithog a byddwn yn diweddarau'r tudalennau Cymraeg yr un pryd â'r rhai Saesneg.
- Mae holl wasanaethau yn rhai Cymraeg, ac yn cael eu hyrwyddo ar ein gwefan.
- Mae adran ar ein gwefan sy'n cynnwys yr holl wybodaeth am sut rydym yn cydymffurfio â'r safonau iaith – byddwn yn diweddarau'r adran hon yn rheolaidd.
- Byddwn yn defnyddio Cymraeg a Saesneg ar ein cyfryngau cymdeithasol.

- Os byddwch yn anfon neges atom drwy'r cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ateb yn iaith y neges wreiddiol.

Wyneb yn wyneb

- Mae holl staff cyflogedig y cwmni yn medru'r Gymraeg felly bydd unrhyw ymwelwyr i swyddfa'r cwmni yn cael eu cyfarch yn Gymraeg.
- Mae'n gytundeb gyda'n landlord, Prifysgol y Drindod Dewi Sant, fod y staff sy'n gweithio ar brif dderbynfa'r adeilad lle mae swyddfeydd y cwmni yn siaradwyr Cymraeg.

Tendro

- Pan fydd Theatr Genedlaethol Cymru yn cyhoeddi tendr am wasanaethau, byddwn yn cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg yn unig, neu'n ddwyieithog.
- Rydym yn croesawu tendrau yn Gymraeg a bydd unrhyw gyfweiliadau yn gallu cael eu cynnal yn Gymraeg neu'n Saesneg, am fod staff cyflogedig y cwmni i gyd yn siaradwyr Cymraeg.
- Ni fyddwn yn trin unrhyw dendr yr ydym wedi'i dderbyn yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendrau a dderbynnir yn Saesneg.

2. CREU POLISIÂU

Creu polisiau

- Pan fyddwn yn adolygu neu'n datblygu polisiau newydd, byddwn yn ystyried unrhyw effaith y gall y polisi ei chael ar yr iaith Gymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith.
- Byddwn yn meddwl am ffyrdd y gall polisi gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.
- Os ydym yn cynnal ymgynghoriad neu ymchwil er mwyn datblygu unrhyw bolisiau, byddwn yn ceisio barn am effaith y polisi ar yr iaith Gymraeg.

3. GWEITHREDOL

Fel cyflogwr

- Cymraeg yw iaith fewnol y cwmni.
- Rydym wedi ymrwymo i'r egwyddor y gall ein staff fyw eu bywydau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r safonau – o ymgeisio am swydd a chyfweiliad, i drafod materion yn ymwneud â chyflogaeth.
- Mae'r Gymraeg yn sgil angenrheidiol ar gyfer pob swydd o fewn y cwmni am mai dyna'r iaith weithredol yn fewnol. Mae rhai swyddi o fewn y cwmni yn gofyn am lefel uwch o Gymraeg ac mae hynny'n cael ei nodi wrth recriwtio.
- Ry'n ni'n cydnabod fod gan nifer o bobl ddiffyg hyder yn eu sgiliau iaith Gymraeg, yn newid wrth ymgeisio am swyddi, felly wrth recriwtio ry'n ni'n nodi y byddem yn cynnig cefnogaeth i unrhyw un sydd eisiau datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach, trwy hyfforddiant gloywi iaith ac ati.
- Ry'n ni'n gofyn i ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau Cymraeg am y mwyafrif o swyddi o fewn y cwmni am fod sgiliau ysgrifenedig Cymraeg yn hanfodol er mwyn gwneud y swydd. Ar gyfer swyddi lle nad yw sgiliau ysgrifenedig Cymraeg uwch mor angenrheidiol, bydd opsiwn i ymgeiswyr i gyflwyno cais yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- Mae polisiau sydd wedi'u rhestru o fewn y safonau sy'n ymwneud ag amodau

gwaith ein staff ar gael yn Gymraeg yn unig neu'n ddwyieithog.

- Rydym yn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy ddarparu cyfleoedd i fynychu hyfforddiant megis sesiynau gloywi iaith.

4. CADW COFNOD AC ATODOL

Monitro a goruchwyllo

Bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn monitro cydymffurfiaeth gyda'r safonau yn barhaol. Byddwn yn casglu tystiolaeth a bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol yn arwain y broses monitro a chadw trosolwg. Byddwn yn cadw golwg agos ar gwynion gydag unrhyw batrymau sy'n ymddangos yn ein cynorthwyo i ddeall ac adnabod meysydd i wella. Yn ôl yr angen, byddwn yn sicrhau fod gwybodaeth berthnasol ar gael i Gomisiynydd yr Iaith.

Cadw cofnod ac adrodd yn flynyddol

Yn unol â'r safonau, byddwn yn paratoi adroddiad blynyddol ar gyfer Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ac yn ei gyhoeddi ar ein gwefan. Bydd yr adroddiad yn esbonio sut rydym wedi cydymffurfio â'r safonau, gyda thystiolaeth o sut rydym wedi cyflawni'r gofynion. Bydd yr adroddiad yn dangos a ydym wedi methu cyflawni unrhyw rai o'r safonau hefyd, ac a oes rhywun wedi cwyno am ein darpariaeth Gymraeg. Hefyd, byddwn yn cofnodi faint o aelodau staff sydd wedi mynychu cyrsiau yn Gymraeg, faint o swyddi a hysbysebwyd gyda gofynion iaith Gymraeg a nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg.

Cwynion

Gallwch gwyno wrthym ni os ydych yn teimlo nad ydym wedi cyflawni ein dyletswyddau yn unol â safonau'r iaith Gymraeg.

Am ragor o wybodaeth

Fe gewch restr o'r holl safonau a osodir arnom ar ein gwefan <https://theatr.cymru/y-cwmni/safonau-iaith-gymraeg/> ac ar wefan Comisiynydd yr Iaith Gymraeg www.comisiynyddygyymraeg.cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni yn Gymraeg neu Saesneg: Ar

y ffôn

01267 233882

Drwy lythyr

Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin SA31 3EQ

Ar E-bost

thgc@theatr.com